

# Dechrau Wrth fy Nhraed

## Yr Ysgol:

Mae yna 558 o ddisgyblion yn mynychu Ysgol Lon Las sydd wedi ei leoli ar gyrion pentref Llansamlet. Agorodd yr ysgol yn wreiddiol yn 1949 a chafodd ysgol newydd sbon ei adeiladu yn 2017. Mae 89.6% o ddisgyblion yn dod o gartref di-gymraeg ond mae 100% yn rhugl yn y Gymraeg a Saesneg (Williams, 2021). Mae'r ysgol yn hybu'r iaith Gymraeg trwy wahodd amrywiaeth o ymwelwyr i'r ysgol i hybu'r iaith Gymraeg, er enghraifft cafodd yr ysgol ymweliad gan y gantores Bronwen Lewis (Ysgol Lon Las). Roedd hyn yn ffordd hwyl a diddorol o hybu'r iaith yn yr ysgol ac yn ôl adroddiad estyn 2018, mae gan y disgyblion balchder wrth siarad Cymraeg. Mae'r ysgol hefyd yn cynnig cymorth i rheini ddysgu Cymraeg trwy gynnig gwersi Cymraeg (Williams, 2021) a darparu adnoddau dysgu Cymraeg ar lein trwy wefan yr ysgol (Ysgol Lon Las). Trwy wneud hyn, mae'r rheini yn cael cyfle i fod yn rhan o gymuned Cymraeg yr ysgol.

Mae'r ysgol yn sicrhau fod rhieni yn cael y cyfle i gymryd rhan yn addysg eu plant trwy ddanfon llyfrau gwaith y disgyblion adref pob hanner tymor a chael wythnos 'dewch a rhiant i'r ysgol' (Williams, 2021). Mae'r rhain yn gweithio'n dda ac yn rhoi syniad da i'r rhieni o sut mae eu plant yn cael eu haddysgu (Estyn, 2018). Mae ymgysylltiad effeithiol rhwng yr ysgol a rhieni yn arwain at gynydd mewn cwblhad gwaith cartref, ymddygiad gwell a phresenoldeb gwell (Harris, A & Goodall, J, 2007). Mae'r ysgol hefyd yn gwneud defnydd o dechnoleg er mwyn rhoi mynediad i'r rhieni at waith a datblygiad eu plant. Mae cod QR yn cael ei yrru i rieni yn flynyddol sy'n rhoi mynediad at gynydd eu plant ers cychwyn yn yr ysgol (Williams, 2021). Mae hyn yn caniatáu i rieni cael rôl amlwg a phwysig yn addysg eu plant (estyn, 2018). Mae defnyddio technoleg yn ffordd effeithiol o gysylltu hefo rhieni (Harris, A & Goodall, J, 2007) ac mae rhoi cyfle i rieni weld cynnydd eu plant yn helpu i ysgogi plant i wneud yn well (Llywodraeth Cymru, 2016).

## Y Gymuned

O'r pum system yn theori Bronfenbrenner, mae'r lefel meso yn edrych ar fywydau plant yn fwy eang o ran ysgol a 'problemau' fel tlodi, anabledd a digartrefedd (Thomas, 2008). Mae ysgol Lon Las yn amlwg yn cydnabod hyn trwy ddarparu cyfleoedd i ddisgyblion cyfrannu i'r gymuned trwy gyfrannu at elusennau gwahanol megis y gronfa fwyd lleol (Williams, 2021). Yn adroddiad Estyn o'r ysgol yn 2018 nodwyd fod hyn yn cael effaith da ar ymwybyddiaeth y disgyblion o anghenion pobl wahanol yn eu cymuned a'r byd ehangach. Mae ymchwil yn dangos fod plant sy'n ymgysylltu ag elusennau cyn bod yn 10 oed yn ddwywaith mwy tebygol o barhau i wneud trwy eu bywydau na phlant sy'n dechrau yn 15-16 oed. Mae'r Adran Addysg hefyd yn hyrwyddo y dylai plant cael cyfleoedd i gyfrannu i'r gymuned (Body, A & Lau, E & Josephidou, J 2019). Felly trwy wneud hyn, mae ysgol Lon Las yn annog eu disgyblion i gyfrannu i'w cymunedau lleol a'r byd ehangach.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd o ardaloedd natur o gwmpas yr ysgol, llefydd fel amgueddfeydd lleol ac yn mynd ar deithiau i ardaloedd lleol fel y traeth (Williams, 2021). Mae ymweliadau addysgol yn darparu cyfleoedd newydd gwerthfawr i nifer o blant ac yn rhoi cyfle i blant defnyddio eu dychymyg mewn ffordd newydd. Trwy wneud defnydd o'r gymuned leol mae plant yn dysgu am ei hunaniaeth bersonol ac am eu cymuned ehangach (Richards, 2010).

Yn ogystal, mae'r ysgol yn gweithio gydag asiantaethau lleol ac mae'r frigâd dan a'r heddlu yn gwneud ymweliadau cyson sydd yn cynnwys gweithgareddau am berthnasoedd iach a chamddefnyddio sylweddau (estyn, 2018). Mae gweithio gyda'r sector gwirfoddol a statudol yn sylfaenol er mwyn darparu addysg dinasyddiaeth dda (hwb, 2008). Mae'r ysgol yn cydnabod y gymuned trwy gynnwys y gymuned leol yn waith y disgyblion, er enghraifft gwnaethon ysgrifennu llythyr at Brif weinidog Cymru i gwyno am sbwriel ym Mae Abertawe (Estyn, 2018). Mae profiadau fel hyn yn helpu dysgwyr i ddeall sut i fod yn ddinasyddion da ac i ddeall beth yw eu cyfrifoldeb ofewn y gymuned yn ogystal â deall beth yw'r problemau yn eu hardal leol (Hwb, 2020). Un o dargedau Ysgol Lon Las ynglŷn â'r siarter iaith yw siarad hefo cymdeithasau a busnesau lleol am eu defnydd o'r iaith Gymraeg (Gwefan Ysgol Lon Las). Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion am eu cymuned yn ogystal â datblygu eu sgiliau Cymraeg.


## Y Dysgwr

Mae yna 558 o ddisgyblion yn Ysgol Lon Las ac mae 7% ohonynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim sydd yn llai na'r cyfartaledd cenedlaethol o 18%. Mae gan 22% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol sy'n debyg i'r canran cenedlaethol o 21% (estyn, 2018). Mae clywed llais y disgybl yn bwysig iawn yn ysgol Lon Las. Enghreifftiau o hyn yw bod barn y disgybl yn cael ei ystyried wrth gynllunio themâu, mae rhieni a disgyblion yn cyfrannu at osod ac adolygu targedau ac mae'r disgyblion yn cael cyfle i fod yn rhan o bwyllgorau ysgol fel y cyngor eco a'r cyngor hawliau plant (Williams, 2021). Mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da gan gynnwys y rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (estyn, 2018). Mae hawliau plant yn chwarae rhan bwysig yn fywyd yr ysgol, er enghraifft mae ganddynt yr 'Arwr hawliau' i godi ymwybyddiaeth y disgyblion am eu hawliau (Williams, 2018). Erthygl 12 o'r hawliau plant UNICEF yw bod gan bob plentyn hawl i fynegi eu barn a'u teimladau am faterion sy'n effeithio nhw (Unicef, 2019). Wrth ddysgu am eu hawliau, mae plant yn dysgu am 'problemau' yn y byd ehangach, sef y lefel meso yn theori bronfenbrenner (Thomas, 2008). Mae plant sy'n cael cyfle i gyfrannu i'r ysgol yn profi manteision fel cael mwy o gyfrifoldeb, mwynhad, darganfod sut mae'r ysgol yn rhedeg, gweithio gyda'r athrawon a'r athrawon yn deall safbwynt y plant (Wilson, 2009).

Mae'r ysgol yn gosod lles y dysgwyr yn flaenoriaeth trwy ddefnyddio'r dull 'Arfer Adferol' i helpu disgyblion i gydnabod sut mae eu hymddygiad yn effeithio eraill sut mae ymddygiad eraill yn effeithio nhw. Bwriad hyn yw helpu'r dysgwyr i gael ymateb rhesymol i sefyllfaoedd amrywiol a fydd hyn yn eu helpu yn y gymuned yn y dyfodol (Ysgol Lon Las).



Unicef (Acted, 2022)



Bronfenbrenner's Bioecological System (bronfenbrenner project, 2013)

Cyfeirnodau:

Williams (03/11/2021), *Pontio*, PCDDS Caerfyrddin

Estyn (Medi, 2018), *Adroddiad ar Ysgol Gymraeg Lon Las*, Cymru, Ar gael yn: <https://primarysite-prod-sorted.s3.amazonaws.com/ysgol-gynradd-gymraeg-lon-las/UploadedDocument/993c574d7b94440faf7db04e75062a03/ysgol-gynradd-gymraeg-lon-las-adroddiad-estyn.pdf> (cyrchwyd 09/12/2021)

Harris, A. & Goodall, J. (2007), *Review of best practice in parental engagement*, Ar gael yn: [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/182508/DFE-RR156.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/182508/DFE-RR156.pdf) (Cyrchwyd 09/12/2021)

Llywodraeth Cymru (2016), *Welcoming Families to engage with the school*, Caerdydd, Ar gael yn: <https://gov.wales/sites/default/files/publications/2018-12/theme-3-welcoming-families-to-engage-with-the-school-resources-1-9.pdf> (cyrchwyd 10/12/2021)

Thomas (2008), *Y plentyn bach*, Cyflwyniad i Astudiaethau Plentyndod Cynnar, Caerfyrddin: Cyhoeddiadau Coleg y Drindod

Body, A & Lau, E & Josephidou, J (2019), *Engaging Children in Meaningful Charity: Opening-up the Spaces within Which Children Learn to Give*, Ar gael yn: [https://onlinelibrary.wiley.com/doi/epdf/10.1111/chso.12366?saml\\_referrer](https://onlinelibrary.wiley.com/doi/epdf/10.1111/chso.12366?saml_referrer) (Cyrchwyd: 10/12/2021)

Siencyn, S & Thomas, S (2008), *Y plentyn bach*, Cyflwyniad i Astudiaethau Plentyndod Cynnar, Caerfyrddin: Cyhoeddiadau Coleg y Drindod  
Hwb (2008), *Education for Sustainable Development and Global Citizenship*, Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/storage/eaf467e6-30fe-45c9-93ef-cb30f31f1c90/common-understanding-for-school.pdf> (cyrchwyd: 10/12/2021)

Unicef (2019), *A Summary of the UN Convention on the Rights of the Child*, Y DU, Ar gael yn: [https://www.unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights/?sisearchengine=284&siproduct=Campaign\\_G\\_02\\_Our\\_Work&gclid=CjwKCAiA8bqOBhANEiwA-sIIINwDhuOOrQUv2HEWu4d7M5RQtq4cYU5wMmCL7V647skppW7Z74UuFrRoClxQQA\\_vD\\_BwE](https://www.unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights/?sisearchengine=284&siproduct=Campaign_G_02_Our_Work&gclid=CjwKCAiA8bqOBhANEiwA-sIIINwDhuOOrQUv2HEWu4d7M5RQtq4cYU5wMmCL7V647skppW7Z74UuFrRoClxQQA_vD_BwE) (Cyrchwyd: 12/12/2021)

Wilson (2009), *Pupil Participation: Comments from a Case Study*, Ar gael yn: <https://www.emerald.com/insight/content/doi/10.1108/09654280910923390/full/pdf?title=pupil-participation-comments-from-a-case-study> (cyrchwyd: 12/12/2021)

Gwefan Ysgol Lon Las, *Y Siarter Iaith*, Ar gael yn: <https://www.ygglonlas.co.uk/siarter-iaith-language-charter/> (Cyrchwyd: 12/12/2021)

Gwefan Ysgol Lon Las, *Adnoddau dysgu cymraeg*, ar gael yn: <https://www.ygglonlas.co.uk/adnoddau-dysgu-cymraeg-welsh-learning-resources/> (Cyrchwyd: 12/12/2021)

Hwb Cymru (2020), *Area of Learning and Experience, Humanities*, Ar gael yn: <https://hwb.gov.wales/curriculum-for-wales/humanities/> (cyrchwyd: 12/12/2021)

Bronfenbrennerproject (2013), *Bronfenbrenner's Bioecological System*, ar gael yn: <https://bronfenbrennerproject.wordpress.com/category/real-life-examples/> (cyrchwyd: 12/12/2021)

Richards (2010), *Y Cyfnod Sylfaen 3-7 oed: Athroniaeth, Ymchwil ac Ymarfer*, Caerfyrddin, Cyhoeddiadau Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant  
Acted (2022), *United Nations Children's Fund (UNICEF)*, Ar gael yn: <https://www.acted.org/en/partners/united-nations-childrens-fund-unicef/>